| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | **Y Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad** | **23 Mehefin 2022** |
| **Pwnc** | **Penodi Aelodau i'r Pwyllgor Safonau** |
| **Aelod Cabinet** | **Cyng. Menna Jones** |
| **Awdur** | **Iwan Evans, Swyddog Monitro** |

**Cefndir**

1. Mae'r Pwyllgor Safonau yn bwyllgor statudol sydd â naw aelod, sef

- 5 'Aelod Annibynnol' (aelodau sydd heb unrhyw gysylltiad â llywodraeth leol)
- 1 'Aelod Pwyllgor Cymunedol' (aelod o un o gynghorau cymuned Gwynedd ond heb fod yn aelod o Gyngor Gwynedd)
- 3 'Aelod Etholedig' o Gyngor Gwynedd.

2. Daw tymor aelodaeth yr Aelod Etholedig a'r Aelod Pwyllgor Cymunedol i ben gyd'rg etholiadau'r llywodraeth leol nesaf yn dilyn eu penodiad ac felly mae'r seddi hyn yn wag ar hyn o bryd.

**Aelodau Etholedig**

3. Y drefn ar gyfer penodi aelodau etholedig, sydd wedi ei chymeradwyo gan y Cyngor Llawn, yw i'r Swyddog Monitro ysgrifennu at bob aelod o'r Cyngor i wahodd ceisiadau, a'u cyflwyno'r i'r Grŵp Busnes am ystyriaeth. Cyflwynir argymhelliad y Grŵp Busnes i'r Cyngor sydd â'r hawl i wneud y penodiad.

4. Penodir aelodau i'r Pwyllgor, nid ar sail cydbwysedd gwleidyddol, ond drwy ystyried y meini prawf a sefydlwyd gan y Cyngor, sef bod rhaid meddu ar y nodweddion a sgiliau canlynol:

- Sgiliau gwrando;
- Y gallu i ddeall a phwyso tystiolaeth;
- Y gallu i ffurfio barn wrthrychol a'i hesbonio drwy gyfeirio at y dystiolaeth;
- Sgiliau gweithio mewn tîm;
- Parchu pobl eraill a dealltwriaeth o ystyriaethau gwahaniaeth;
- Disgresiwn;
- Uniondeb Personol.

5. Ysgrifennwyd felly at holl aelodau'r Cyngor yn gofyn am geisiadau. Derbyniwyd tri chais o fewn yr amser a ganiatawyd, gan y canlynol :

- Cyng. Beth Lawton (aelod Bro Dysynni)

- Cyng. Anne Lloyd-Jones (aelod Gorllewin Tywyn)
- Cyng. Dewi Owen (aelod Aberdyfi)

(Mae'r Cynghorwyr Beth Lawton ac Anne Lloyd Jones eisoes wedi gwasanaethu ar y Pwyllgor ond mae modd eu penodi am un tymor dilynol arall. )

6. Penderfynodd y Grŵp Busnes fod y tri ymgeisydd yn cwrdd â'r meini prawf ac yn deilwng o gael eu penodi i'r Pwyllgor

**Aelod Pwyllgor Cymunedol**

7. Daeth y tymor yr aelod Pwyllgor Cymunedol, sef y Cyng. Richard Parry Hughes (Cyngor Cymuned Llannor) i ben gyda'r etholiadau ym mis Mai, ond mae'n gymwys i'w ail benodi am un cyfnod pellach.

8. Yn 2017 fe'i penodwyd ar ôl i'r aelod pwyllgor cymunedol blaenorol wasanaethu am ddau dymor. Gwahoddwyd enwebiadau bryd hynny gan holl gynghorau'r sir a chynhaliwyd cyfweliadau. Mae wedi profi'n aelod gwerthfawr ac ymroddgar o'r Pwyllgor. Oherwydd ei gyfraniad a'r profiad sydd ganddo o'r gwaith, argymhellir fod y Cyngor yn ail benodi Richard Parry Hughes am dymor pellach fel nad yw hynny'n cael ei golli i'r Pwyllgor.

9. Mae'r rheoliadau yn darparu dylid ymgynghori gyda chynghorau cymuned y sir cyn ail- benodi a gydag unrhyw gymdeithas cynghorau cymuned. Ysgrifennwyd at yr holl gynghorau o fewn y sir ac mae'r ymatebion sydd wedi eu derbyn yn ffafrio ail-benodi ac eithrio un cyngor oedd yn argymell cynnal cystadleuaeth. Nid oes gan Un Llais Cymru wrthwynebiad i'r peonodiad. Mae Grŵp Busnes y Cyngor hefyd o blaid ail-benodi.

**Argymhelliad**

10.1 Penodi'r **Cynghorwyr Beth Lawton, Anne Lloyd-Jones** a **Dewi Owen** i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau fel Aelodau Etholedig tan yr etholiadau llywodraeth leol cyffredin nesaf yn dilyn eu penodiad.

10.2 Penodi'r **Cynghorydd Richard Parry Hughes** Cyngor Cymuned Llannor i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau fel Aelod Pwyllgor Cymunedol tan yr etholiadau llywodraeth leol cyffredin nesaf yn dilyn ei benodiad.

**Sylwadau Swyddogion Statudol**

**Swyddog Monitro**
Awdur yr adroddiad

**Swyddog Cyllid**
"Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol."